**CYP(3)-03-10 Paper (4)**

**Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**

# Ymchwiliad i'r ddarpariaeth o fannau diogel i blant a phobl ifainc chwarae a chymdeithasu

## Cyflwyniad tystiolaeth ychwanegol Chwarae Cymru yn unol â chais y Pwyllgor

1. Yn eich tystiolaeth ysgrifenedig, rydych yn nodi y caiff ‘strydoedd sy’n llawn o geir wedi eu parcio effaith sylweddol ar deimladau ynghylch diogelwch a dilysrwydd chwarae allan’ ac ewch ymlaen i ddweud bod ‘angen oedolion am le ar gyfer eu ceir, ac i warchod y cerbydau hynny, yn cael blaenoriaeth rheolaidd a digwestiwn dros angen plant a phobl ifainc i chwarae allan ac i gymdeithasu’. Beth ddylid ei wneud i ddelio â materion o’r fath, a phwy ddylai fod yn gyfrifol am hyn?

1.1. Nid oes un ateb cyfleus i’r broblem hon gan fod cyfuniad o ffactorau’n cyfrannu iddi:

**Ymddygiad / agwedd gyrwyr / perchnogion ceir**

1.2. Hyd y gwyddom mae’r unig ddarpariaeth a geir yn Rheolau’r Ffordd Fawr ar gyfer plant yn defnyddio’r stryd i chwarae fel a ganlyn:

1.2.1.1. Bydd Rheol 218 yn gweld cyflwyno Parthau Cartrefi a Lonydd Tawel. Mae’r rhain yn fannau ble y gall gyrwyr ddisgwyl i weld pobl yn defnyddio’r ffordd gyfan ac yn cynnwys ardaloedd ble y gallai plant fod yn chwarae. Cynghorir gyrwyr i yrru’n araf ac yn ofalus yn yr ardaloedd hyn.

1.3. Mae’r math yma o ganllawiau ar gyfer gyrwyr yn awgrymu mai Parthau Cartrefi a Lonydd Tawel yw’r **unig** fannau ble y gallem ddisgwyl gweld plant yn chwarae – dylid newid y geiriad i gynnwys pob ardal breswyl. Yn ogystal, dylid adolygu canllawiau ar gyfer hyfforddwyr gyrru.

1.4. Mae addysgu gyrwyr ynghylch rhannu strydoedd preswyl gydag aelodau eraill o’r gymuned yn hanfodol ar gyfer rhai sy’n dysgu gyrru, ond dylid hefyd gael addysg cyhoeddus parhaus sy’n atgyfnerthu’r neges fod strydoedd preswyl ar gyfer pawb ac sy’n cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch effaith bod yn berchen ar gar.

1.5. Byddem yn ceisio rhagor o gefnogaeth i fentrau rhannu ceir, mentrau gwella trafnidiaeth gyhoeddus ac ymgyrchoedd sy’n annog cerdded a beicio.

**Dylunio a chynllunio strydoedd preswyl**

1.6. Deallwn fod y Llawlyfr Strydoedd presennol a chanllawiau Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12 yn cael eu hanwybyddu’n gyson o blaid canllawiau sydd wedi dyddio ac nad yw eu gweithrediad yn cael ei archwilio. Mae’r canllawiau a’r cyngor yma’n berthnasol i dai newydd eu hadeiladu yn hytrach na’r stoc tai sy’n bodoli eisoes, ac o’r herwydd mae ond yn gwneud gwahaniaeth i gyfran fechan iawn o’r cymunedau ble y gallai plant chwarae.

1.7. Byddem yn argymell yn gryf y dylai’r Pwyllgor ofyn am dystiolaeth gan Mike Biddulph o Adran Cynllunio Prifysgol Caerdydd sydd â dealltwriaeth arbenigol o’r materion hyn ac sydd wedi gwerthuso mentrau strydoedd DIY a

pharthau cartrefi.

1.8. Mae canllawiau cynllunio cyfredol yn nodi lwfans o hyn a hyn o fannau parcio ar gyfer pob cartref newydd a adeiledir – nid yw hyn yn cynnwys y stoc tai sy'n bodoli eisoes. Mewn ardaloedd preswyl sefydledig efallai y byddai trwyddedau parcio yn helpu rhywfaint i leihau'r nifer o geir gaiff eu parcio ar y strydoedd ac i annog y perchnogion hynny fyddai'n gallu, i ddefnyddio drefi y tŷ.

1.9. Byddai'n bosibl gwneud gwell defnydd o, a rhannu gofod lleol sy'n bodoli eisoes – unai ar gyfer parcio neu chwarae. Gellid cefnogi mentrau sy'n hybu cyfranogaeth lleol i feddwl am atebion creadigol ar y cyd trwy Gynghorau Cymuned, cymdeithasau trigolion a mudiadau eraill sydd â ffocws cymunedol sy'n gweithio mewn partneriaeth â phlant a phobl ifainc. Er enghraifft, gallai archwiliadau lleol o ble y bydd pobl yn parcio, ble y bydd plant yn chwarae ar hyn o bryd a mannau gweigion ble y gallai pobl barcio neu chwarae sydd ddim yn cael defnydd llawn, arwain at ddatrysiadau lleol creadigol i broblemau tagfeydd traffig a diffyg lle i chwarae. Gallai hyn fod yn rhan o'r archwiliad digonolrwydd a geir yn y Mesur Plant a Theuluoedd.

1.10. Hoffem dynnu sylw'r Pwyllgor at argymhellion 6.6.3 a 6.6.4 yn ein tystiolaeth ysgrifenedig.

2. Yn eich tystiolaeth ynghylch canfyddiadau oedolion, rydych yn nodi mai'r 'farn nad yw chwarae allan yn ddymunol (yn enwedig o'i gyfuno â'r cysyniad bod chwarae allan yn beryglus) yw un o'r rhwystrau pennaf sy'n atal plant a phobl ifainc rhag gallu chwarae allan a chymdeithasu yn hyderus'. Pa mor bwysig yw rôl rheini a gofalwyr yn y cyd-destun hwn?

2.1. Caiff rhieni a gofalwyr ddylanwad pwysig ar eu plant ac ar oedolion eraill – mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod pwysau cyfoedion yn fwy effeithlon nag addysg pan ddaw'n fater o sicrhau newidiadau mewn ymddygiad, boed hynny'n negyddol, neu'n gadarnhaol.

2.2. Mae arolygon ac ymgynghoriadau dilynol yn awgrymu bod llawer o oedolion yn cydnabod pwysigrwydd chwarae yn yr awyr agored, fodd bynnag, mae mynd ati i droi'r gydnabyddiaeth yma'n realiti a newid safbwyntiau disymud yn dasg gymhleth. Bydd angen inni osgoi beirniadu rhieni a gofalwyr. Mae rôl eglur ar gyfer y Llywodraeth wrth greu amgylchedd sy'n llawn anogaeth a chynyddu hyder, sy'n helpu i alluogi rhieni i sicrhau newidiadau o fewn eu cymunedau fel cynghreiriaid eu plant.

2.3. Mae'r cyfryngau newyddion ac adloniant poblogaidd yn dylanwadu'n fawr ar feddyliau rhieni. Mae angen inni hwyluso gosod delweddau ac enghreifftiau cadarnhaol o blant yn mwynhau ac yn elwa o chwarae allan yn y cyfryngau ac ar raglenni teledu poblogaidd, a chynnig esiamplau real o rieni o wahanol ddiwylliannau a dosbarthiadau sy'n hapus yn gweld eu plant yn chwarae

allan – byddai cefnogaeth sêr carismatig poblogaidd ar y cyfryngau sy'n rieni o gymorth. Cafodd y math yma o 'sylw ar y cyfryngau', wedi ei gyfuno â pholisi eglur a phendant a chefndir deddfwriaethol, effaith cadarnhaol o bwys, er enghraifft, ar agweddau tuag at gyfunrhywiaeth dros yr 20 mlynedd diwethaf.

2.4. Yn ogystal, gellid arafu'r tueddiad tuag at gadw plant yn y tŷ trwy addysg cyhoeddus a gwaith cymunedol pendant i gynnydd hyder rhieni a gofalwyr yn nilysrwydd a gwerth chwarae allan a chymdeithasu. Bydd angen i neges pob ymarferydd proffesiynol sydd ynghlwm â theuluoedd, o feichiogiad ymlaen (o fydwragedd ac ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol a'r offeiriadaeth, i ymarferwyr blynyddoedd cynnar ac athrawon ysgol) annog agwedd ymarferol, gefnogol, 'chwalu chwedlau' tuag at weld plant a phobl ifainc yn chwarae allan a chymdeithasu.

2.5. Yn union fel nad oes cwestiwn ynghylch y ffaith bod llythrennedd a chwarae o fudd a bod angen goresgyn rhwystrau, yn yr un modd bydd angen inni feithrin amgylchedd ble nad oes yr un cwestiwn ynghylch y ffaith y gallai ac y dylai plant a phobl ifainc chwarae allan.

2.6. Mae rhai elfennau o ddarpariaeth chwarae wedi cefnogi rhieni i ennill hyder y gall ac y dylai eu plant fynd allan i chwarae – gall gweithwyr chwarae peripatetig sy'n ymweld â mannau awyr agored er mwyn eu hadennill ar gyfer chwarae plant, gan gynnig gyfleoedd chwarae ac yna cilio'n raddol pan fo patrwm wedi ei sefydlu, wneud cyfraniad o bwys i hyder plant yn ogystal â hyder oedolion. Mae gennym dystiolaeth o brosiectau sy'n gweithio yng Nghymru sydd wedi llwyddo i ystyried barnau rheini ac sydd wedi ymwneud â hwy mewn modd sensitif er mwyn tawelu eu hofnau a'u camdybiaethau ynghylch darpariaeth chwarae mynediad agored (wedi ei staffio). Bu hyn yn arbennig o effeithlon gyda rhai rhieni a gofalwyr plant anabl.

2.7. Mae gan gwmnïau masnachol sy'n cynhyrchu a gwerthu gemau a gweithgareddau electronig gyllidebau hysbysebu anferthol yn ogystal â buddiant breintiedig gweld plant yn aros yn eu cartref a bod yn 'ddefnyddwyr'. Mae chwarae gemau a chymdeithasu electronig yn rhan o'r diwylliant chwarae modern, ond mae gan y Llywodraeth rôl i'w chwarae wrth daro cydbwysedd rhwng y buddiannau hyn â rhai plant, pan ofynnwyd iddynt ble fyddai'n well ganddynt chwarae, oedd ar y cyfan yn ateb y byddai'n well ganddynt chwarae'r tu allan. Byddai agwedd o'r fath nid yn unig yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawl plant i chwarae, ond byddai hefyd yn cyfrannu at iechyd ac yn hyrwyddo cyfranogaeth.

**Gwybodaeth ychwanegol ynghylch Normau Rotterdam, yn unol â chais y Pwyllgor.**

2.8. Mae'r testun isod yn drosiad o grynodeb a gyflwynwyd yng nghynhadledd 'Child in the City' yn Rotterdam yn 2008. Ceir hyd i'r cyflwyniad '*power point*' perthnasol trwy'r ddolen isod:

2.9. http://conference.europoint.eu/childinthecity/presenation/Rosemarie%20Maas.pdf

*Yn 2003, cytunodd cyngor y ddinas a'r is-fwrdeistrefi fod angen cyfres o normau ar gyfer ardaloedd chwarae awyr agored oedd yn benodol i Rotterdam, yn seiliedig ar gydnabyddiaeth:*

*Bod gofod ar gyfer chwarae awyr agored yn cael ei fwrw i'r cysgod yn aml gan ddiddordebau eraill*

*Nad oedd unrhyw ganllawiau clir ynghylch pryd y mae gan ardaloedd preswyl ddigon o ardaloedd chwarae awyr agored*

*Bod ardaloedd chwarae awyr agored yn aml iawn yn cael eu cynllunio mewn mannau sydd ddim yn hygyrch iawn i blant ac yn aml iawn nad oes digon o ofod yn nes at adref*

*Bod angen mynd i'r afael â diffyg ymarfer corff*

*Yn 2004, ffurfiwyd cyfres o normau'n seiliedig ar astudiaethau damcaniaethol ac ymchwiliadau i faterion:*

*Datblygiad plant, eu hymddygiad chwarae a chwaraeon a'u hangen am ardaloedd awyr agored*

*Sgiliau traffig plant*

*Arolwg o normau sy'n bodoli eisoes ar gyfer ardaloedd chwarae awyr agored*

*Cynnwys cyfres o normau ar gyfer ardaloedd chwarae awyr agored mewn prosesau cynllunio trefol, mewn polisïau yn ogystal â gweithdrefnau cynllunio trefol.*

*Profwyd y normau arfaethedig hyn yn 2005 a 2006 mewn amryw o wahanol amgylcheddau byw, yn enwedig mewn cymdogaethau ble roedd trafodaethau ynghylch defnydd tir. Dangosodd hyn fod:*

*Y normau arfaethedig yn cyd-fynd â'r cynlluniau trefol presennol, o'u gweithredu mewn pryd.*

*Y normau yn realistig. Roedd y rhan fwyaf o'r ardaloedd a ymchwilwyd yn cydymffurfio â'r normau eisoes. Mae hyn yn gryn syndod, gan fod y normau*

*newydd yn Rotterdam yn fwy llym na'r canllawiau a geir fel arfer yn Yr Iseldiroedd.*

*Gellid derbyn y normau hyn fel offeryn i fesur os yw cynlluniau ailstrwythuro yn neilltuo digon o ardaloedd chwarae awyr agored ai peidio. Gellid ei ddefnyddio hefyd fel offeryn polisi i werthuso os y gwnaethpwyd digon, neu beidio, o ddarpariaeth ar gyfer ardaloedd chwarae awyr agored mewn cymdogaethau sy'n bodoli eisoes. Amlinellwyd mesurau digolledu posibl ac mae'r rhain yn cael eu profi ar hyn o bryd.*

*Mae Normau Rotterdam ar gyfer ardaloedd chwarae awyr agored yn cynnwys 3 elfen allweddol:*

*AC*

*Un ardal adloniadol ganolog o leiaf 5000m2 o faint o fewn pob bloc rhwystr* mawr (yn fwy na 15ha). Mewn blociau rhwystr llai o faint (llai na 15ha), bydd un ardal adloniadol fawr o leiaf 1000m2 yn ddigon.*

*Dylai'r ardaloedd hyn gynnwys y nodweddion cynllunio trefol canlynol:*

*Wedi ei leoli'n ganolog*
*I'w weld o'r tai*
*Mewn mannau heb eu llygru*
*Gwaharddiad parcio ar ochr adloniadol y ffordd*
*Mynediad i heulwen a chysgod*

*A*

*Dylai ardaloedd adloniadol mwy o faint (o leiaf 1000m2) fod o leiaf pob 300 metr o'r ardal adloniadol ganolog; pob 200 metr mewn ardaloedd adeiledig trwchus**. Dylid cael ardaloedd sy'n briodol ar gyfer chwarae awyr agored o leiaf pob 300 metr neu 200 metr.*

*A*

*Phalmentydd lletach (3-5 metr o led) sy'n addas ar gyfer chwarae arnynt ar o leiaf un ochr o'r stryd, yr ochr heulog yn ddelfrydol*

*(*) Mae 'blociau rhwystr' yn ardaloedd o fewn rhwystrau sy'n cynnwys ffyrdd gyda chyfyngiad cyflymder o 50cilomedr yr awr neu'n uwch, dŵr (afon, camlas, pwll, llyn, pyllau), rheilffyrdd (tramiau a threnau) a / neu fusnesau ac ardaloedd diwydiannol.*

*(**) Ardaloedd adeiledig trwchus yw'r ardaloedd hynny sydd â 75 o dai yr hectar neu fwy.*

*Lluniwyd y normau hyn o ganlyniad i ymgynghori rhwng amrywiol wasanaethau bwrdeistrefol, yn cynnwys gwasanaethau tai a chynllunio trefol, gweithiau*

*cyhoeddus, gwasanaethau iechyd bwrdeistrefol, adrannau cymdeithasol ac addysg ieuenctid, asiantaethau datblygu a chwarae ac adloniant.*

2.10. Fel y nodwyd yn ein tystiolaeth gynharach, deallwn fod dehongliad normau Rotterdam wedi arwain at weld pob man agored cyhoeddus yn cael ei glustnodi'n fan chwarae i blant (oni bai bod rheswm da i beidio â gwneud hynny).

2.11. Gellid ystyried normau Rotterdam fel ateb Ewropeaidd i Safon Chwe Acer y *National Playing Fields Association*, sydd wedi ei gynnwys fel atodiad i Ganllaw Cynllunio TAN 16 – sy'n cyfeirio at *LAPS*, *LEAPS* a *NEAPS*, fel yr amlinellir isod. Unwaith eto, 'dyw'r Safon yma ond yn berthnasol i ddatblygiadau newydd neu ail-ddatblygiadau.

2.12. Cynlluniodd y *National Playing Fields Association* (*NPFA*) fformat sy'n cynnig arweiniad i Awdurdodau Lleol a datblygwyr, sy'n ymdrin â gofod chwarae. Mae'r arweiniad yn delio â:

- Maint
- Lleoliad
- Gofod chwarae
- Safle ymysg ardaloedd eraill o'r amgylchedd adeiledig / cymdeithasol.
- Amser cerdded (nododd y grŵp mai nid pellter oedd y mesuriad gorau ar gyfer cael mynediad i'r man chwarae, ond amser cerdded).

**2.13. Ardal Chwarae Leol (*LAP*)**

Ardal fechan o ofod agored, heb oruchwyliaeth, a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer plant iau rhwng 4-6 mlwydd oed yn bennaf. Caiff lleoliad yr ardal ei bennu fel bod 1 funud o bellter cerdded. Dylai'r ardal fod yn addas ar gyfer gemau syml; yn fflat a gwastad gydag arwyneb glaswellt. Dylid defnyddio rheilen, ffens neu wrych fel ffîn diogelwch i warchod rhag damweiniau ffyrdd.

**2.14. Ardal Chwarae Leol ag Offer (*LEAP*)**

Ardal heb oruchwyliaeth gydag offer ar gyfer plant oedran ysgol ifanc ac o fewn amser cerdded o bum munud o'r cartref. Dylai'r ardal fod yn addas ar gyfer plant 4-8 mlwydd oed, er y dylid rhoi ystyriaeth i blant iau, â goruchwyliaeth. Dylai'r *LEAP* gynnig o leiaf 5 math chwarae gwahanol a dylent fod â meinciau ar gyfer oedolion fydd yn hebrwng y plant.

**2.15. Ardal Chwarae ag Offer Cymunedol (*NEAP*)**

Safle heb oruchwyliaeth sy'n gwasanaethu ardal breswyl o faint sylweddol. Dylai'r ardal hon fod ag offer ar gyfer plant hŷn, rhwng 8-14 mlwydd oed. Dylai hefyd fod â darpariaeth ar gyfer plant sydd ychydig yn iau. Dylai'r *NEAP* gael eu lleoli o fewn chwarter awr o amser cerdded o'r cartref. Dylai maint yr ardal chwarae gynnwys 8 gwahanol fath o offer chwarae sy'n cynnig heriau a phleser

sy'n briodol i'r grŵp oedran. Dylid hefyd darparu meinciau i oedolion fydd yn hebrwng plant ac ardaloedd i bobl ifainc gwrdd.

2.16. Fodd bynnag, mae'r ffocws ar ddarpariaeth neilltuol, penodol yn rhan o hen patrwm sy'n anelu i segregeiddio plant oddi wrth y gymuned ehangach ac nid yw'n delio â realiti plentyndod, ble y bydd plant yn chwarae eu ffordd trwy'r gymuned, o'r funud y byddant yn camu allan o'u cartref i'r adeg y byddant yn dychwelyd gartref. Nid yw hynny'n golygu bod darpariaeth sy'n cyfateb â'r model *LAPS*, *LEAPS* a *NEAPS* yn ddiwerth; yn aml, dyna'r cyfan fydd gan blant yn eu cymunedau ble y Canfyddir ei bod yn ddilys iddynt chwarae. Ond bydd angen inni ystyried os yw'r math hwn o ddarpariaeth traddodiadol yn cynrychioli gwerth am arian, o ystyried cyn lleied y gall plant gael mynediad iddo heb bresenoldeb oedolyn.

Chwarae Cymru, 8 Chwefror 2010

www.chwaraecymru.org.uk

Elusen Gofrestredig 1068926

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant a Gofrestrwyd yng Nghymru 3507258